

Adroddiad Ôl-ymgynghori

Dorchester Avenue a Winchester Avenue - Rhwystrau Ymwthiol ar Gyffordd Ddyrchafedig

Rhif y Project: CO17126

Bu ymgynghoriad ar y cynlluniau uchod a gynigiwyd rhwng 19 Medi 2017 a 3 Hydref 2017, ond cafodd unrhyw ohebiaeth a ddaeth i law'n fuan ar ôl y dyddiad cau ei gynnwys yn yr adroddiad hwn hefyd. Diben yr ymgynghoriad oedd casglu gwybodaeth gan y gymuned leol er mwyn gwella'r cynllun a mynd i'r afael â gofidiau lleol pan fydd yn bosibl.

O'r rhyw 260 eiddo yr ymgynghorwyd â nhw a'r 8 hysbysiad safle a arddangoswyd ar y safle, derbyniwyd 17 ymateb unigol, a dyma grynodedb ohonyn nhw:

- 11 – O blaid y cynnig
- 6 – Yn erbyn y cynnig

Dyma ddadansoddiad o'r ffigurau uchod:

- Dorchester Avenue – 9 o blaid ac 1 yn erbyn
- Winchester Avenue – 1 o blaid
- Strydoedd Eraill – 1 o blaid a 5 yn erbyn

Mae'n werth nodi nad yw'r rhan fwyaf o'r sylwadau yn erbyn y cynllun sy'n cael ei gynnig wedi'u gwneud gan drigolion Dorchester Avenue a Winchester Avenue lle y mae rhwystrau ymwthiol y gyffordd ddyrchafedig yn cael eu cyflwyno. Cafodd gohebiaeth a ddaeth i law gan drigolion strydoedd heblaw Dorchester Avenue a Winchester Avenue eu grwpio dan yr enw "Strydoedd Eraill".

Argymhelliad

O ystyried yr isod, cynigir **bwrw ymlaen** gyda'r cynllun, gan ddibynnu ar y cyllid fydd ar gael. Bydd y cynllun yn cyflwyno cyffyrdd dyrchafedig gyda rhwystrau ymwthiol o gwmpas cyffyrdd Dorchester Avenue a Winchester Avenue a bydd hefyd yn cyflwyno llinellau melyn dwbl i nodi "Dim Aros ar Unrhyw Adeg".

Dyma'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori sydd yn erbyn y cynnig:

"Mae'n ymddangos i mi, oherwydd bod 'swm o arian' wedi cael ei neilltuo ar gyfer y project, dim ots p'un a yw'n briodol ai peidio, bydd yn cael ei wario 'doed a ddelo' pan ellid gwneud gwell defnydd ohono yn rhywle arall yn y ddinas pe bai angen. Oni bai bo'r gwaith am gael ei wneud yn effeithiol h.y. cau'r ffordd yn gyfan gwbl, yna mae'n well peidio â gwneud dim o gwbl. Unwaith eto mae arian gwerthfawr trethdalwyr yn cael ei wastraffu gan lywodraeth leol."

"Yn fy marn i, mae'r cynllun hwn yn ddiangen a byddai mewn gwirionedd yn cael effaith negyddol.

Er y nodir y byddai'n cael ei "gyllido", buaswn i'n awgrymu bod y cyllid hwn yn cael ei neilltuo ar gyfer cynlluniau eraill sy'n cynnig budd gwirioneddol."

Mae'r arian ar gyfer y cynllun hwn sy'n cael ei gynnig wedi dod o Gytundeb A106 (Adran 106). Mae Adran 106 (A106) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn caniatáu awdurdod cynllunio lleol (ACLI) i ymgymryd â chytundeb sy'n gyfreithiol-rwym neu rwymedigaeth gynllunio gyda thirfeddiannwr mewn cysylltiad â rhoi caniatâd cynllunio. Caiff y rhwymedigaeth honno ei galw'n Gytundeb Adran 106.

Mae'r cyllid wedi'i ddyrannu ar gyfer gwelliannau diogelwch ffyrdd a chan ei fod yn benodol i gynllun, ni ellir ei ailddyrrannu i brojectau eraill, lleoliadau eraill neu wasanaethau eraill o fewn y Cyngor.

"Ni allwn weld sut y bydd cael mesurau tawelu traffig ar gyffyrdd yn atal pobl rhag defnyddio'r strydoedd hyn fel llwybrau tarw neu rhag goryrru"

"Yn fy marn i, byddai nifer bach o ddefnyddwyr llwybr tarw penderfynol yn parhau i anwybyddu'r cynllun".

Nid yw'r cynllun hwn wedi'i ddatblygu er mwyn ceisio perswadio cerbydau i beidio â defnyddio'r ffyrdd sydd wedi'u nodi; y nod yw datblygu cynllun diogelwch ar y ffyrdd i wella diogelwch ar y ffyrdd yn gyffredinol ar gyfer pob defnyddiwr ffordd ger y cyffyrdd a nodwyd. Bydd y byrddau arafu ar y cyffyrdd yn lleihau cyflymder traffig er mwyn gwneud y ffyrdd yn fwy diogel a hygyrch ar gyfer cerddwyr yn y lleoliadau hyn.

"Os bydd cyllid newydd ar gael, yna dylai diogelwch cerddwyr ar gyffordd Colchester Avenue a Rhiw Pen-y-lan fod yn fwy o flaenoriaeth fel mae preswylwyr lleol wedi bod yn ei ofyn ers blynnyddoedd. Mae'r cartref i henoed yn golygu bod yn rhaid i gyfleusterau diogel fod ar gael ger goleuadau'r brif gyffordd – gall trigolion Winchester a Dorchester yn groesi yn y fan honno a cherdded yn eu blaenau. Mae angen croesfan ddiogel ar ddisgyblion dwy Ysgol Uwchradd ar y gyffordd hon – unionwch hynny gyntaf.

"Dw i ddim yn credu bod angen cynllun o'r fath yn enwedig o fewn 100 llath i gyffordd Rhiw Pen-y-lan / Colchester Avenue. Rwy'n aml yn gweld cerddwyr (a beicwyr) yn cael trafferth ar y gyffordd hon tra bod y ffyrdd sy'n rhan o'r cynllun a gynigir yn dawel dros ben a ddim yn peri anhawster i unrhyw ddefnyddwyr ffordd."

Mae Projectau Trafnidiaeth wedi ymchwilio i broblemau Diogelwch ar y Ffyrdd ledled Caerdydd drwy ymgymryd â chyfres o Astudiaethau Ardal. Mae'r ymchwiliadau wedi rhoi ystyriaeth i broblemau newydd a godwyd gan Gynghorwyr ac aelodau o'r Cyhoedd, ynghyd â phroblemau a meysydd pryder sy'n bodoli eisoes.

Mae'r ymchwiliad cynhwysfawr i broblemau diogelwch ar y ffyrdd a hygyrchedd wedi cynnwys gwerthusiad o gofnod yr heddlu ar ddigwyddiadau cysylltiedig ag anafiadau, arolygon traffig a cherddwyr, datblygiadau sydd ar y gweill a data perthnasol arall. Gallaf roi gwybod i bryderon eraill gael eu lleisio am y lleoliad hwn yn y gorffennol ac mae cynllun "Cyfleusterau Croesi i Gerddwyr" ar restr rhaglenni'r dyfodol ar gyfer cyffordd Colchester Avenue a Heol Pen-y-lan. Serch hynny, gan fod hyn yn amodol ar ragor o gyllid, ni allwn roi amserlen o ran pryd caiff y cynllun hwn ei roi ar waith. Bydd gosod cyfleusterau i gerddwyr yn y lleoliad hwn yn costio mwy o lawer na'r cyllid Adran 106 sydd ar gael.

Fel y nodwyd eisoes yn yr adroddiad hwn, mae'r arian sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y cynllun hwn a gynigir yn cael ei ddarparu drwy Gytundeb Adran 106 yn benodol ar gyfer y lleoliad hwn a does dim modd ailddyrrannu'r arian ar gyfer projectau eraill, lleoliadau eraill neu wasanaethau eraill o fewn y Cyngor.

"Does bosib nad yw statws Mynediad yn Unig Winchester a Dorchester erbyn heddiw yn amheus - pa reswm yn y byd sydd dros esgusodi'r cyfeiriadau hyn rhag y dilyw o draffig y mae'n rhaid i bob un ohonon ni ddygymod ag ef?"

A yw Mynediad yn Unig yn llaw-fer ar gyfer manteision i drigolion arbennig yn unig? Mae'n bryd i'r sawl sy'n mynnu triniaeth arbennig gamu i'r byd go iawn!

Mae gan Dorchester Avenue a Winchester Avenue Oorchymyn Rheoli Traffig "Mynediad yn Unig" sydd wedi bod ar waith ers nifer o flynyddoedd. Mae'r Gorchymynion Traffig hyn yn droseddau traffig sy'n symud nad oes modd i Swyddogion Gorfodi Parcio Sifil eu gorfodi oherwydd bod angen stopio cerbydau a holi gyrwyr i gadarnhau unrhyw drosedd bosibl ac felly dim ond yr Heddlu a all orfodi'r Gorchymynion hyn.

Tra nad yw Cyngor Caerdydd yn bwriadu cyflwyno Gorchymynion Rheoleiddio Traffig 'Mynediad yn Unig' bellach, lle ceir strydoedd lle mae Gorchymynion Traffig Mynediad yn Unig eisoes ar waith fe fyddant yn aros ac ni chânt eu diddymu oherwydd y gall yr arwyddion gymell gyrwyr rhag gyrru drwy'r lleoliadau hyn.

"Y rheswm dros wahardd y cynllun gwreiddiol oedd am fod y llythyr cynghori'n gofyn am WRTHWYNEBIADAU i'r cynllun yn unig, ac NID cadarnhad gan y rheini oedd o blaid. Roedd cymdogion o bob tu i mi'n cytuno ond wnaethon nhw ddim ymateb oherwydd y gwnaethoch chi eirio'ch llythyr yn anghywir. Dylech fod wedi nodi y dylai pawb ymateb waeth beth oedd eu barn."

Mae'n arfer Cyngor safonol i bob eiddo o fewn 100 metr o gynllun Projectau Trafnidiaeth i dderbyn llythyr er mwyn codi ymwybyddiaeth o gynllun Projectau Trafnidiaeth a gynigir. Diben yr ymgynghoriad oedd cael gwybodaeth gan y gymuned leol er mwyn gwella'r cynllun a mynd i'r afael ag unrhyw bryderon lleol petai hynny'n bosibl. Mae'r geiriad sy'n cael ei ddefnyddio ar ddogfennau ymgynghori yn safonol yn achos pob Ymgynghoriad Project Trafnidiaeth oherwydd nid ydym yn ymgymryd ag ymgynghoriad "ar sail pleidlais" lle rydym yn chwilio am gefnogaeth y mwyafrif i'r cynllun.

Mae hynny felly'n galluogi'r cyhoedd i benderfynu p'un a ydynt am ohebu "o blaid" neu "yn erbyn" cynllun a gynigir. Mae'r adborth yn cael ei ddefnyddio fel gwybodaeth bellach parthed ein penderfyniad ar p'un ai neu sut i fwrw ymlaen â chynllun penodol. Mae'n galonogol clywed bod cefnogaeth leol i gynllun ond ni fydd hynny o reidrwydd yn dylanwadu ar gamau nesaf y penderfyniad.

“Mae'r cynllun a gynigir yn erchyll. Anhrefn fydd yr unig ganlyniad iddo ac rwy'n sicr y digwydd damwain fawr maes o law. Fydd neb yn gallu troi i mewn na dod allan o Dorchester Avenue ar adegau penodol. Bydd ciwiau o draffig ar Riw Pen-y-lan a bydd lledu'r palmant yn golygu na fydd y traffig yn llifo cystal gan y bydd angen i geir wro i fynd o'i gwmpas.”

“Ein gofid yw y gall y gyffordd ddyrchafedig olygu y bydd culhau'r mynediad a'r allanfa i'r ddwy ffordd yn peri mwy o broblemau i yrwyr sy'n dod oddi ar y rhiw sy'n dod i gwrdd â char sydd wrthi'n gyrru dros y gyffordd (gyfyngedig) ddyrchafedig, ac mai effaith hynny fydd peri tagfeydd ar Riw Pen-y-lan (sy'n ffordd gyswllt bwysig).”

Tra bydd lled y ffyrdd o amgylch y cyffyrdd hyn yn cael ei leihau, bydd digon o le o hyd i draffig lifo'r ddwy ffordd drwy'r cyffyrdd hyn. O ganlyniad i gulhau'r ffyrdd, bydd yn rhaid i gerbydau arafu wrth nesáu at y gyffordd.

Mae ymarferion wedi'u cynnal yn ystod y cam dylunio cysyniadol sydd wedi dangos bod modd i gerbydau droi yn y ffordd heb gael eu rhwystro gan y drefn a gynigir ar gyfer y gyffordd. Serch hynny, yn ystod y cam dylunio manwl, creffir yn fanylach ar drefn y gyffordd i weld p'un a oes angen gwneud unrhyw newidiadau i rwystrau ymwithiol y gyffordd ddyrchafedig.

“Rhaid i geir arafu ar y cyffyrdd hyn eisoes. Fydd dim diben adeiladol i gyflwyno twmpath cyflymder yn y lleoliadau hyn.”

Mae'n arferol i gerbyd arafu ar gyrraedd cyffordd – os yw cyffordd yn llydan efallai na fydd gyrwyr mor debygol o arafu'n ddigonol i lywio trwyn y car ar gyflymder priodol. Yn rhan o'r cynnig, bydd y ffordd yn cael ei chulhau a bydd hynny'n gorfodi cerbydau i arafu wrth gwblha'r weithred o droi. Bydd hyn felly yn gwella diogelwch i yrwyr a cherddwyr yn y lleoliadau yma.

“Bydd y cynigion yn fy atal rhag parcio fy nghar yn ddiogel gyda'r nos y tu allan i'm heiddo fy hun ar ffordd breswyl yn bennaf fel dw i wedi'i wneud ers 30 mlynedd.”

Mae Rheolau'r Ffordd Fawr yn nodi 'ni ddylech adael eich cerbyd neu drelar mewn lle peryglus, nac ychwaith mewn lle sy'n rhwystro'r ffordd mewn modd diangen'. Mae hefyd yn nodi 'Peidiwch â stopio na pharcio gyferbyn neu o fewn 10 metr i gyffordd'. Mae angen y cyfyngiadau hyn er mwyn gwella diogelwch i gerddwyr sy'n croesi'r cyffyrdd, i amddiffyn gwelededd gyrwyr ac i hwyluso llywio cerbydau. Er efallai y bu cerbydau yn parcio'n agos at y cyffyrdd hyn yn flaenorol, gan fod y cynnig yn ymwneud â materion diogelwch dylid osgoi parcio yma bob tro. Byddai'r cynllun a gynigir yn atal nifer bychan yn unig o geir fyddai'n achosi rhwystr pe byddent yn parcio yn y lleoliad hwn.

Tra ein bod yn deall awydd preswylwyr i barcio mor agos â phosibl at eu cartrefi, rhaid i ddiogelwch ar y ffyrdd fod yr ystyriaeth flaenaf ac ni ddylid cyfaddawdu arno er cyfleuster parcio. Ar ôl i'r broses Ymgynghori ar y Project Trafnidiaeth ddod i ben a phan gyfunir ar benderfyniad o ran sut y dylid bwrw ymlaen â'r cynllun hwn, byddwn yn rhoi cyfarwyddyd i'r tîm Gorchmynion Rheoli Traffig i ddechrau ar broses Gorchymyn Traffig gyfreithiol i gefnogi cyflwyno'r cyfyngiadau hyn ar y ffordd. Yn rhan o'r broses Gorchymyn Rheoli Traffig, bydd hysbysiadau safle'n cael eu rhoi ar y safle i roi gwybod i'r cyhoedd am y cynigion. Bydd yr hysbysiadau safle hyn yn rhestru union ddimensiynau unrhyw Orchmynion Rheoli Traffig ar gyfer yr ardal pe byddai'r cyhoedd yn dymuno gwrthwynebu'r cyfyngiadau arfaethedig.

Bydd cynnwys cyffordd ddirchafedig, oherwydd dirgryniadau y mae'r traffig yn ei greu, yn effeithio'n negyddol ar uniondeb strwythurol fy nhŷ sydd â sylfeini ar wely o glai."

Mae canllawiau'r Adran Drafnidiaeth ar dwmpathau ffordd a dirgryniadau ar eiddo yn seiliedig ar y Safon Brydeinig 7385: Rhan 2 sy'n nodi gwerthoedd trothwy'r dirgryniadau a all achosi mân ddifrod cosmetig i adeiladau. Defnyddiwyd y gwerthoedd hyn i gyfrifo'r pellter lleiaf y gellir yn ddymunol leoli twmpathau ffordd o anheddau, yn ôl y math o bridd. Mae'r tabl hwn yn dangos na ddylid gweld hyd yn oed graciau mân iawn heblaw bod twmpathau ar y ffordd yn cael eu gosod lai na 4m o adeilad, hyd yn oed yn achos y pridd mwyaf meddal. Yn ystod y cam dylunio manwl, byddwn yn sicrhau nad yw twmpathau'n cael eu gosod o fewn 4m i adeilad.

"Nid yw'r cynigion newydd ychwaith wedi'u saernïo'n gywir, oherwydd nad ydynt yn rhoi unrhyw ystyriaeth i'r gwli draenio o'r ffordd sydd y tu allan i'm tŷ, sydd bellach yn ymddangos fel y caiff ei gladdu dan y gyffordd ddirchafedig!"

Mae'r cynlluniau cychwynnol yr ydym yn ymgynghori arnyn nhw ar y cam hwn yn "gynlluniau cysyniadol" a bydd newidiadau yn bosibl ym mhob achos yn y cam "dylunio manwl". Caiff unrhyw broblemau draenio eu nodi yn y cam dylunio manwl a chaiff unrhyw ddiwygiadau perthnasol eu gwneud i'r cynllun a gynigir.

"Hoffwn hefyd awgrymu mynd yn ôl at osod y rhwystrau ymwithiol bellter yr un mor bell o'r naill gwrbyn a'r llall yn hytrach na'u gosod yn agosach i un ochr er mwyn diogelu rhan fechan o'r man parcio ar gyfer fy anghenion Treth Gynqor cyfradd band uchel rhesymol fy hun?"

Yn y lle cyntaf, rhaid nodi nad yw rhwystrau ymwithiol wrth gyffordd yn cael eu cyflwyno er mwyn diogelu cerbydau rhag llif y traffig; maen nhw'n ffordd o leihau lled y lôn gerbydau mewn man penodol er mwyn gwella diogelwch y ffyrdd ar gyfer pob defnyddiwr ar y ffordd. Bydd y nodwedd hon yn annog cerbydau i lywion ddiogel, yn ddisgybledig a dan reolaeth ar bob adeg ac nid yw'n berthnasol i gerbydau sydd wedi'u parcio gerllaw.

Mae'r cynllun cysyniadol yn dangos y rhwystr ymwithiol ar un ochr i'r ffordd. Felly bydd unrhyw gerbydau sydd wedi'u parcio'n uniongyrchol y tu ôl i'r rhwystr ymwithiol (sydd tua lled car) yn ddiogel y tu ôl i'r rhwystr ymwithiol yma. Pe byddai rhwystrau ymwithiol ar ddwy ochr y ffordd, byddai cerbydau a fyddai wedi'u parcio'n ymwithio i'r ffordd y tu hwnt i'r rhwystr ymwithiol ar y ddwy ochr. Nid yw hynny o reidrwydd yn welliant ar gynigion y cynllun cysyniadol. Serch hynny, byddai'r naill opsiwn neu'r llall yn cyflawni'r nod o arafu traffig ac o wella hygyrchedd i gerddwyr. Nid ystyrir hyn yn benderfyniad sylfaenol ac felly caiff ei benderfynu yn ystod y broses ddylunio fanwl pan fydd materion eraill yn dod dan ystyriaeth mwy trylwyr (e.e. gwasanaethau a draeniau presennol, nodweddion tir annisgwyl, arwyddion presennol ac arwyddion a gynigir, a chelfi a nodweddion stryd).

“Rwy’n pryderu y bydd y cynllun hwn yn lleihau nifer y manau parcio sydd ar gael yn sylweddol – bydd 16 o fannau parcio’n llai. Mae’r rhain yn cael eu defnyddio bob nos ar hyn o bryd pan nad oes lle ar ôl i drigolion y tu allan i’w cartrefi eu hunain.”

“Rwy’n credu bod y trefniant presennol, sef bod cerbydau’n gallu parcio’n weddol agos i’r cyffyrdd ar ddwy ochr y ffordd, yn “arafu traffig” eisoes h.y. mae’n rhaid i gerbydau sy’n troi i mewn i Winchester Avenue a Dorchester Avenue arafu a throï’n ofalus.”

Mae Cod y Briffordd yn argymhell i yrwyr beidio â pharcio o fewn 10 metr i gyffyrdd ac mae hefyd yn argymhell i yrwyr beidio â pharcio ar ffordd lle y byddai gwneud hynny’n peryglu cerddwyr neu ddefnyddwyr eraill y ffordd, neu’n peri anghyfleuster neu rwystr iddyn nhw. Felly arfer y Cyngor yw bod cyfyngiadau parcio o gwmpas y cyffyrdd fel arfer yn cael eu cyflwyno ger cyffyrdd am o leiaf 10 metr. Byddai’r llinellau melyn dwbl a gynigir yn atal nifer bychan yn unig o geir wedi parcio a fyddai o’u parcio yn y lleoliad hwn yn creu problemau diogelwch a chreu rhwystrau.

Mae ffigur o “16” o fannau parcio coll yn cyfeirio at geir sy’n cael eu parcio’n groes i ganllawiau Rheolau’r Ffordd Fawr ac felly ni ddylid parcio cerbydau yn y lleoliadau hyn ar hyn o bryd.

Dyma’r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori sydd o blaid y cynnig:

“Parthed: Rhwystrau ymwithiol cyffordd Dorchester a Winchester Avenue, syniad rhagorol – hollol gefnogol! Bydd y project hwn yn bendant yn cael effaith gadarnhaol ar draffig sy’n defnyddio’r ffordd hyn i osgoi’r goleuadau traffig ar gyffordd Colchester Avenue â Heol Pen-y-lan.”

“Dw i o blaid y cynllun arafu traffig sydd wedi’i amlinellu.”

“Rwy’n cytuno â’r cynnig i wella mynediad at Dorchester Avenue. Mae angen dybryd am hyn cyn i ddamwain gas ddigwydd yma.”

“Mae’r cynigion i weld yn gall a, gobeithio, fe fyddent yn creu cyffyrdd mwy diogel.”

“Dyw ein barn ar hyn erioed wedi cael ei derbyn, felly yn absenoldeb hynny rydyn ni’n cytuno gyda’r ateb nesa, sef rhwystrau ymwithiol i ddileu’r apêl i rai sydd ar ras o hyd.” Rydyn ni’n mawr obeithio eu bod yn llwyddiannus er budd pawb sy’n byw yma.”

“Rwy’n cytuno â’r cynnig i osod cyffyrdd dyrchafedig a rhwystrau ymwithiol ar gyffordd Dorchester Avenue â Heol Pen-y-lan a Waterloo Road er mwyn ceisio atal neu arafu traffig sy’n torri drwodd ar lwybr tarw – ar gyflymder - i osgoi goleuadau traffig ar gyffordd Heol Pen-y-lan gyda Colchester Avenue.”

“Rydyn ni’n gwerthfawrogi bod y Cyngor yn ceisio rhoi mesurau tawelu traffig ar waith sydd â mawr eu hangen ar gyffordd Dorchester Avenue â Rhiw Pen-y-lan oherwydd mae cynnydd wedi bod yn nifer y ceir sy’n gyrru heibio yn ddiweddar. Mae rhai hyd yn oed wedi dangos eu hanfodlonrwydd/dicter am ein bod ni’n gorfod troi ein car allan i’r ffordd gan ‘darfu’ ar eu llwybr tarw.”

“Rwy’n cytuno â’r cynnig i wella mynediad at Dorchester Avenue. Mae angen dybryd am hyn cyn i ddamwain gas ddigwydd yma.”

Mae'r isod yn sylwadau a ddaeth i law yn ystod y cyfnod ymgynghori am faterion eraill cysylltiedig â'r ymgynghoriad:

“Yn y lôn gefn rhwng Winchester Avenue a Colchester Avenue, mae sbwriel a cherbydau sy'n cael eu parcio heb awdurdod gan rwystro mynediad i garejys yn bla arnon ni. A allai'r Cyngor ar ryw ben ystyried gosod gatiâu o ddeutu'r lôn hon?”

Parthed cau lonydd i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol, mae angen gorchmynion cyfreithiol o'r enw Gorchmynion “Gatiâu Lôn Gefn”. Gwasanaeth Tai'r Cyngor sy'n cyflwyno gorchmynion o'r fath. Mae modd cysylltu â nhw drwy ffonio C2C ar 029 2080 2087 neu drwy e-bostio TaiAChymunedau.CymorthBusnes@caerdydd.gov.uk.

“Allech chi gadarnhau bod arfer y Cyngor o ymgynghori dim ond â phreswylwyr sy'n byw o fewn 100 metr i'r cynllun arfaethedig yn cael ei ddilyn yn yr achos hwn?”

Mae'n arfer Cyngor safonol y bydd pob eiddo o fewn 100 metr i gynllun Projectau Trafnidiaeth yn derbyn llythyr er mwyn codi ymwybyddiaeth o gynllun Projectau Trafnidiaeth sydd ar y gweill. Does dim modd ymgynghori â phob eiddo yn yr ardal felly bydd bob amser ryw eiddo neu gilydd na fydd yn derbyn llythyr fel rhan o'r ymgynghoriad. Cafodd hysbysiadau safle eu gosod ar y safle yr effeithir arno a oedd yn nodi manylion y cynnig a hefyd dolen i wefan y Cyngor lle gallai'r cyhoedd weld rhagor o wybodaeth am y cynllun.

“A gaf awgrymu newid cyflymder y ffyrdd hyn i 20mya oherwydd mae'r ffyrdd yn y rhan fwyaf o'n hardal yn rhai 20mya erbyn hyn.”

Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn ymchwilio i'r posibilrwydd o bennu rhagor o fannau 20mya ledled y Ddinas. Y manau preswyl cyfagos â chanol y ddinas fydd dan sylw yn y lle cyntaf. Maes o law, a chan ddibynnu ar gyllid, caiff terfynau cyflymder 20mya eu hystyried mewn manau eraill.

Yn dilyn ymgynghoriadau diweddar ar gynning rheoli traffig, mae'r Gyngor yn paratoui i weithredu'r cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun.

Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/Projectautrafnidiath ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'. Fel arall, e-bostiwch Projectautrafnidiath@caerdydd.gov.uk neu ffoniwch 029 2087 3289 i ofyn am gopi papur o'r adroddiad ymgynghori.



Following the recent consultation on a traffic management proposal, the Council is preparing to implement the scheme based on the plan shown.

Further details about this consultation are available at www.cardiff.gov.uk/TransportProjects using the 'view consultations' link. Alternatively, please e-mail TransportProjects@cardiff.gov.uk or telephone 029 2087 3289 to request a paper copy of the post-consultation report.